**Adroddiad ar**

# Gylch Meithrin "Hill Street yn Plas Coch"

**Cylch Meithrin - Hill Street**
**Ysgol Plas Coch**
**Ffordd Stansty**
**Wrecsam LL11 2BU**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2022**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Meithrin "Hill Street yn Plas Coch"

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Hill Street Plas Coch |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Linda Lewis |
| Person â gofal | Michelle Peagram |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Amrediad oedran y plant | 2 a hanner i 3 oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 16 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 9.15- 11.30 y.b Dydd Llun - Ddydd Gwener |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydw |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol y plant sy'n defnyddio, neu a allai, ddefnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Mai 2018 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Mawrth 2013 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 08/03/2022 |
| Lleiafrif y plant sydd yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf. | |

## Diffyg cydymffurfio

Hysbyswyd y darparwr nad yw’r lleoliad yn cydymffurfio â’r Rheoliadau, ni chyflwynwyd hysbysiad, ond mae’r rhain yn cael eu hadnabod fel meysydd i’w gwella, a dylai’r unigolyn cyfrifol roi sylw iddynt. Bydd gwybodaeth am bob diffyg cydymffurfiaeth wedi’i chynnwys yn yr Adroddiad Cryno ar Weithredu a Gwella, fydd yn cael ei anfon ar wahân i’r adroddiad gan AGC.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod ardaloedd chwarae tu allan yn cynnig mynediad di-dor i bob plentyn pan ddymunant

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

Bydd AGC ac Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ar ei waith mewn perthynas â ‘sut mae ymarferwyr yn sicrhau bod plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael cyfleoedd cyfoethog i ddatblygu medrau’, i’w lledaenu ar eu gwefannau.

## Prif ganfyddiadau

**Lles:**

Mae bron pob plentyn yn dangos boddhad a hapusrwydd ac yn rhyngweithio'n dda gydag ymarferwyr ac ymwelwyr. Maent yn barod iawn i siarad gyda ni ac yn hapus i chwarae gyda'i gilydd ochr yn ochr. Mae'r rhan fwyaf o blant yn mynegi eu teimladau'n glir. Er enghraifft, yn ystod amser cylch, maent yn ateb y cwestiwn 'sut wyt ti'n teimlo heddiw?' yn hyderus. Mae bron bob plentyn yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau bwriadus ynglŷn â ble a gyda phwy i chwarae. Yn ystod chwarae rhydd, mae bron bob plentyn yn symud rhwng gweithgareddau gwahanol yn hyderus, fel chwarae yn y dŵr a'r tywod neu chwarae gydag adnoddau yn yr ardal darnau rhydd.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn fodlon ac yn gyfforddus yng ngofal yr ymarferwyr. Mae bron pob plentyn yn cyrraedd yn hapus a llawn bywyd ac yn ymdopi heb drafferth wrth wahanu oddi wrth eu rhieni a'u gofalwyr. Mae'r rhan fwyaf yn golchi dwylo, tynnu cot a bag a dewis enw i hunangofrestru yn syth wrth iddynt gyrraedd. Maent yn deall bod ymarferwyr yn gwrando ar eu dymuniadau neu bryderon. O ganlyniad, maent yn ffurfio perthnasoedd cadarnhaol â'u gweithwyr allweddol, sy'n cael effaith dda ar eu lles.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymddwyn yn dda, yn rhannu adnoddau ac yn dechrau deall sut i gymryd tro yn llwyddiannus. Mae bron bob plentyn yn ymuno yn y sesiwn ioga yn frwdfrydig ac yn dangos pleser wrth wneud hyn, gan ddilyn cyfarwyddiadau syml.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn hapus i chwarae gyda'i gilydd a gyda'r ymarferwyr. Maent yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau yn fawr iawn ac yn gwneud hynny'n hyderus wrth ddilyn eu diddordebau. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'u dychymyg yn dda, er enghraifft trwy greu cacennau yn yr ardal toes a choginio yn y gegin fwd. Maent yn dysgu sut i ofalu amdanynt eu hunain a sut i gadw'n iach. Mae llawer o blant yn medru dyfalbarhau ar weithgareddau am amser priodol i'w cam datblygu.

Mae bron pob plentyn yn mwynhau dysgu medrau newydd wrth iddynt ymgymryd ag amrywiaeth o brofiadau diddorol. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau annibynnol yn llwyddiannus, er enghraifft trwy arllwys diodydd i'w hunain yn hyderus. Mae llawer yn defnyddio cyfarpar chwarae mawr fel offer dringo, pibau mawr i rolio a chicio a thaflu pêl gyda rheolaeth gynyddol.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn ac yn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn llwyddiannus. Mae'r mwyafrif yn gwrando'n astud ac yn ymateb yn synhwyrol i stori gan fwynhau a mynegi eu teimladau ac emosiynau'n dda. Defnyddia'r rhan fwyaf iaith briodol yn unol â'u datblygiad i fynegi'r hyn maent yn ei wneud wrth chwarae'n ddigymell, er enghraifft wrth iddynt drafod yn ddychmygol yr angen i adael i'r cacennau oeri ychydig ar ôl dod allan o'r microdon yn y gornel toes. Mae medrau darllen cynnar y rhan fwyaf o'r plant yn datblygu'n dda, er

enghraifft wrth ddewis eu henwau tra'n hunangofrestru yn y bore a chyn mynd adre. Mae'r mwyafrif yn mwynhau creu marciau gyda gwahanol adnoddau, fel darnau o bren wrth chwarae yn y tywod, gan arddangos medrau mân cadarn. Mae plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. Maent yn elwa'n fawr o'r cyfleoedd eang sy'n cael eu darparu ar eu cyfer.

Mae llawer o blant yn defnyddio iaith fathemategol yn naturiol yn ystod eu dysgu a'u chwarae. Er enghraifft, maent yn defnyddio "trwm" ac "ysgafn" i ddisgrifio bod y bowlen cawl banana yn drwm ar ôl ei llenwi gyda'r tywod. Mae mwyafrif yn datblygu eu medrau rhif yn llwyddiannus trwy rifo a chyfatebu'r cerbydau i luniau yn y llyfr stori yn dda.

Mae bron bob plentyn yn datblygu medrau corfforol yn gadarn gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfarpar tu mewn a thu allan gyda rheolaeth gynyddol. Maent yn defnyddio llwyau o amrywiol faint yn yr ardal hadau a thywod yn fedrus, ac yn rolio lawr y rhiw tu allan yn anturus. Mae bron bob plentyn yn datblygu medrau cydsymud da trwy ymestyn, cydbwyso a chreu amrywiaeth o siapiau fel llew, arwr a rheino yn y sesiwn ioga.

Mae llawer o blant yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn briodol. Maent yn hyderus wrth drin ceir bach rheoledig a defnyddio'r peiriant tâp yn yr ardal gerddoriaeth.

Mae medrau creadigol llawer o'r plant yn datblygu'n dda. Maent yn defnyddio offer ac adnoddau o amrywiol faint yn ystod eu chwarae rhydd i greu amrywiaeth o fwydydd. Maent yn defnyddio gwahanol ddarnau o emwaith mân i greu mwclis unigryw ac yn ymfalchïo yn eu llwyddiant. Mae llawer yn defnyddio camera digidol i dynnu llun o'u creadigaeth er mwyn i'r ymarferwyr ei rannu gyda'u rhieni.

**Gofal a datblygiad:**

Mae'r ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau trylwyr a chadarn i sicrhau iechyd a diogelwch plant. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau ac maent yn darparu cyfleoedd buddiol i blant ddatblygu yn ôl eu hoedran a'u gallu. Mae gan y lleoliad weithdrefnau da ar gyfer cadw plant yn ddiogel. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae ymarferwyr yn adnabod anghenion plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda iawn. Mae ymarferwyr yn datblygu strategaethau wedi'u seilio ar asesiadau manwl ac yn cydweithio'n llwyddiannus gydag asiantaethau allanol er mwyn sicrhau cefnogaeth effeithiol ar gyfer y plant. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn derbyn cefnogaeth gan athrawes o'r awdurdod lleol i greu proffiliau un tudalen i blant unigol sy'n derbyn cymorth. Yn ogystal, mae ymarferwyr yn gweithio'n agos gyda rhieni a gofalwyr i gefnogi'u plant. Mae hyn yn cynnwys cofnodi hoffterau a diddordebau'r plant wrth iddynt ddechrau yn y lleoliad.

Mae gan bob un o'r ymarferwyr dystysgrifau cymorth cyntaf a hylendid bwyd cyfredol. Mae'r gweithdrefnau ac arferion hylendid yn effeithiol ac mae'r ymarferwyr yn annog y plant i olchi eu dwylo yn ôl yr angen. Maent yn paratoi byrbrydau a diodydd iach er mwyn hybu arferion bwyta ac yfed yn iach ymysg y plant.

Mae ymarferwyr yn gweithredu’r polisi rheoli ymddygiad yn dda ac yn modelu hyn yn gadarnhaol. Maent yn siarad â phlant yn annwyl mewn iaith maent yn ei deall ac yn eu hannog i reoli eu hymddygiad yn unol â’u cam datblygiad. Mae ganddynt wybodaeth dda am anghenion a hoffterau bob plentyn ac yn gweithredu’n effeithiol ar wybodaeth gan rieni wrth gofrestru yn y lleoliad.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio ystod o brofiadau chwarae a dysgu buddiol sy’n ennyn diddordeb a chwilfrydedd y plant, a’u hannog i ddod yn ddysgwyr annibynnol mentrus. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y plant yn datblygu eu medrau ar draws yr holl feysydd dysgu. Er enghraifft, mae plant yn datblygu eu medrau rhifedd a’u medrau echddygol manwl yn fedrus drwy ddefnyddio gwahanol offer i lenwi cynhwysion amrywiol gyda hadau, tywod a dŵr. Mae’r ardaloedd dysgu allanol a thu fewn yn cael eu haddasu’n rheolaidd er mwyn creu cyfleoedd sbardunol i’r plant chwarae. Mae’r ardaloedd hyn yn annog y plant i ddyfalbarhau wrth chwarae ac i ganolbwyntio am gyfnodau estynedig. O ganlyniad, mae’r ymarferwyr yn cefnogi’r plant i ddod yn ddysgwyr mentrus ac annibynnol sy’n mwynhau arbrofi â phrofiadau newydd ac i ddatblygu’n archwilwyr hyderus yn eu hamgylchedd. Er enghraifft, mae’r plant yn mwynhau defnyddio’r ardd berlysiau i greu swynau eu hunain a thê pan fyddant yn chwarae rôl yn y gegin fwd. Yn ogystal, mae ymarferwyr yn cynllunio’n fedrus ar gyfer yr holl ardaloedd darganfod tu fewn a thu allan er mwyn cefnogi’r dysgu ac i ddatblygu medrau’r plant yn llwyddiannus.

Mae’r ymarferwyr yn chwarae ochr yn ochr â’r plant ac yn ymyrryd yn amserol ac yn fedrus i ymestyn y dysgu ac i gefnogi a herio’r plant yn llwyddiannus. Ceir enghraifft dda o hyn wrth i ymarferydd weld bod y plant yn mwynhau troelli yn y gwynt tu allan ac yna ychwanegu papur swigod er mwyn i’r plant gael profi nerth y gwynt i greu dawns greadigol ddychmygus.

Mae’r holl ymarferwyr yn holi’r plant yn effeithiol iawn i ymestyn eu dysgu ac i ddatblygu eu medrau meddwl. Maent yn annog y plant i gymryd rhan mewn profiadau dysgu a chwarae buddiol ac yn gwrando arnynt yn amyneddgar a gyda diddordeb. Mae’r ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol o ddeilliannau arsylwadau ac asesiadau i addasu’r ddarpariaeth yn unol â gofynion a diddordebau’r plant. Mae’r ymarferwyr yn asesu a chofnodi cynnydd y plant yn ofalus a chywir ac yn adrodd i’r rhieni.

Mae’r ymarferwyr yn sicrhau bod plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael y rhyddid i ddatblygu eu medrau ac i ddod yn ddysgwyr annibynnol, hyderus. Maent yn caniatáu iddynt arbrofi a gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain, ac yn eu hannog i gydweithio a chwarae’n hwylus gyda’u cyfoedion. O ganlyniad, mae’r plant yn dysgu rheoli eu hemosiynau’n dda, ac yn datblygu hyder ynddynt eu hunain. Mae hyn yn gryfder mawr yn y lleoliad.

Mae’r holl ymarferwyr yn hybu medrau cymdeithasol, moesol a diwylliannol y plant yn dda trwy’r defnydd o'r ‘goeden garedigrwydd’. Maent yn eu hannog i rannu ag eraill ac yn esbonio sut i ymddwyn yn gwrtais os yw plentyn yn ymddwyn yn amhriodol. Mae’r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd buddiol i’r plant ddatblygu dealltwriaeth o’u Cymreictod ac o’r byd ehangach. Er enghraifft, maent yn hannog plant i gymryd rhan

mewn gweithgareddau Cymreig a chwarae rôl yn y babell Eisteddfod i ddathlu Cymreictod yr ardal. Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd da i'r plant ddysgu am wahanol ddiwylliannau a sut i drin pobl o bob diwylliant gyda pharch.

**Yr amgylchedd:**

Mae ansawdd yr amgylchedd chwarae a dysgu tu mewn a thu allan yn dda ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr ac ymestynnol i'r plant ddatblygu eu medrau. Mae'r ymarferwyr yn trefnu'r amgylchedd mewnol yn bwrpasol i sicrhau ardaloedd diddorol, ysgogol sy'n darparu profiadau da i'r plant. O ganlyniad, mae ardaloedd ar gael i blant ddatblygu'n greadigol, gorffwys a chymdeithasu â'i gilydd. Mae'r ardal fewnol yn braf, cysurus a lliwgar gyda nifer o arddangosfeydd deniadol, sy'n dathlu gwaith y plant yn llwyddiannus. Mae hyn yn hyrwyddo'r ymdeimlad o hunan-barch a hunan-werth ymysg y plant yn fwriadus. Mae'r ardal allanol yn cynnig cyfleoedd da i blant dreulio amser yn defnyddio ac arbrofi ag amrywiaeth o adnoddau mewn amgylchedd sy'n ddeniadol, pwrpasol ac ysgogol. Mae ymarferwyr yn darparu amrediad cyfoethog o brofiadau tu allan i'r lleoliad. Mae yna lawr caled a glaswellt naturiol, gan gynnwys bryncyn sydd wedi ei greu, yn cynnig cyfleoedd buddiol i'r plant ymchwilio a chymryd risgiau o fewn amgylchedd diogel. Fodd bynnag, nid yw'r ardal allanol yn cynnig mynediad di-dor i bob plentyn pan ddymunant.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod ystod o adnoddau ar gael sy'n cyfateb i ddiddordebau'r plant yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn darparu amrywiaeth o ddinosoriaid i'r plant er mwyn diwallu eu diddordebau ac ysgogi eu chwilfrydedd. Mae'r lleoliad yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae'r dodrefn, cyfarpar ac adnoddau o ansawdd da ac o fewn cyrraedd hwylus y plant er mwyn hybu eu hannibyniaeth. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod yr holl adnoddau'n hygyrch i bob plentyn, beth bynnag fo'u diddordebau. O ganlyniad, mae'r plant yn mwynhau dilyn eu diddordebau, ac yn datblygu hyder trwy ailymweld ag ardaloedd a chwarae'n gyson gyda theganau cyfarwydd. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod teganau o ddeunyddiau naturiol ar gael i'r plant chwarae gyda hwy, ac maent yn hybu ymwybyddiaeth y plant o ailgylchu yn llwyddiannus.

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn ddiogel drwy weithredu ystod o bolisïau clir a chynhwysfawr. Mae asesiadau risg yn eu lle sy'n cynnwys y brif ystafell, amser byrbryd a'r ardal allanol. Mae'r person â gofal yn ymateb i faterion sy'n codi yn brydlon. Er enghraifft, maent yn ymarfer driliau tan yn gyson er mwyn sicrhau bod y plant yn gyfarwydd â'r trefniadau i'w diogelu. Mae niferoedd y staff fel arfer yn rhagori ar ddisgwyliadau'r safonau ac, o ganlyniad, goruchwylir y plant yn effeithiol iawn.

Mae'r cyfleusterau bwyta a'r tai bach yn addas i oedran y plant. Mae'r toiledau a'r cyfleusterau newid cewynnau yn lân ac yn cydymffurfio â gofynion glendid yn briodol. Mae'r plant yn cael cyfle i fynd i'r tai bach a defnyddio'r basnau golchi dwylo yn annibynnol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Er bod yr arweinydd yn lled newydd i'w rôl, mae'n rhannu ei gweledigaeth yn glir ac yn effeithiol gyda gweddill yr ymarferwyr. Mae'n barod i ddysgu ac yn agored i ofyn a derbyn cyngor oddi wrth asiantaethau allanol. Mae pob un o'r staff yn gweithio yn ddiwyd fel tîm i greu ethos cadarnhaol, hapus a gofalgar trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r ymarferwyr yn cwrdd yn wythnosol i drafod cynnydd y plant. Maent yn canolbwyntio'n bwrpasol ar gynllunio gweithgareddau ac ychwanegu at yr ystod gyfoethog o adnoddau sydd ar gael i ddiddori'r plant. Mae disgwyliadau uchel gan bob un o'r ymarferwyr o'r plant sydd dan eu gofal.

Mae'r arweinydd yn cydweithio'n agos ac yn effeithiol gydag asiantaethau allanol gan weithredu'n uniongyrchol er mwyn datblygu'r ddarpariaeth yn barhaus. Mae arweinwyr wedi gweithio'n agos gydag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol i ddatblygu strwythur hunanwerthuso'r ddarpariaeth yn fwy effeithiol. O ganlyniad, mae arweinwyr yn gwerthuso holl agweddau'r ddarpariaeth a chynllunio ar gyfer blaenoriaethau gwelliant yn llwyddiannus.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod gan y lleoliad ystod dda o ymarferwyr gyda'r cymwysterau priodol ar gyfer diwallu anghenion y plant. Mae'r ymarferwyr yn mynychu cyrsiau hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau ac maent yn dod â strategaethau a syniadau yn ôl i'r lleoliad. Er enghraifft, yn sgil hyfforddiant darnau rhydd, mae'r ymarferwyr wedi ychwanegu ardal newydd o fewn y ddarpariaeth barhaus yn llwyddiannus.  Maent yn arddangos dealltwriaeth dda o ddatblygiad plant ac yn defnyddio'r wybodaeth ynglŷn â'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau nas cynhelir a ariennir er mwyn addasu'r ddarpariaeth yn bwrpasol. Nid yw arweinwyr yn sicrhau'r holl wybodaeth angenrheidiol wrth recriwtio a chynnal arfarniadau blynyddol staff.

Mae arweinwyr yn rheoli'r gyllideb yn effeithiol ac yn gwneud defnydd da o grantiau. Mae hyn yn eu galluogi i ddatblygu'r ddarpariaeth yn barhaus. Er enghraifft, maent wedi gwneud defnydd da o gyllid ychwanegol i adnewyddu'r ardal allanol trwy ddatblygu bryncyn i'r plant chwarae arno a datblygu hyder a medrau corfforol.

O ganlyniad i COVID 19, mae'r lleoliad wedi addasu sut maent yn rhyngweithio gyda'r rhieni. Maent wedi creu tudalen gaeedig ar y we er mwyn i'r rhieni allu gweld yr hyn sydd ar waith yn y lleoliad. Yn ogystal, maent yn gwneud defnydd da o'r hysbysfwrdd tu allan er mwyn hysbysu rhieni o wybodaeth defnyddiol fel pa weithgareddau sy'n digwydd yn y sesiynau a'r wybodaeth ddiweddaraf am y gweithdrefnau diogelu. Mae rhieni'n  gwerthfawrogi'r cyswllt agos sydd rhyngddyn nhw a'r arweinydd a'r ymarferwyr ac yn ddiolchgar am yr holl wybodaeth maent yn ei derbyn yn rheolaidd am fywyd a gwaith y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n agos gyda'r ysgol gyfagos er mwyn hwyluso gweithdrefnau trosglwyddo.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 13/05/2022